Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Penybryn

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Penybryn yn gymuned gynhwysol gyda phwyslais cryf ar les a datblygiad disgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu difyr mewn amgylchedd dysgu trefnus a gofalgar. Mae'r weledigaeth synhwyrol hon, sy'n cefnogi arferion gwella'r ysgol, yn cyfrannu at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae'r athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau darpariaeth eang a chytbwys mewn cyd-destun cynhwysol a strwythuredig. Maent yn dîm effeithiol o staff sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo lles disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a'u cymuned yn dda.

Ar y cyfan, mae rhediad y sesiynau addysgu yn addas i ddysgu disgyblion ac mae adborth yr athrawon i ddisgyblion i wella'u dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ansawdd addysgu'r athrawon a'r her maent yn ei rhoi i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Ar adegau, mae tueddiad y staff i or-arwain yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau am eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson a threfnus i'r disgyblion ddatblygu eu medrau'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r staff yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn hyrwyddo medrau llafar y disgyblion yn dda, ar y cyfan. Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n fwriadus ac maent yn siaradwyr hyderus, yn enwedig yn Saesneg. Er hyn, nid yw agweddau llawer o ddisgyblion at siarad Cymraeg bob amser yn gadarnhaol.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau'n synhwyrol, sy'n datblygu eu teyrngarwch a pharch at bobl eraill yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol gwerthfawr, sy'n cefnogi eu hymwybyddiaeth a'u gwerthfawrogiad diwylliannol yn gadarn.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni'r arferion addysgu a darparu adborth effeithiol i herio'r holl ddisgyblion

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith

A3 Parhau i wella agweddau disgyblion at siarad Cymraeg

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2025